# Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd
# Grant Datblygu Disgyblion (GDD) Datganiad Strategaeth

Mae'r datganiad hwn yn manylu ar ddefnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

**Trosolwg o'r ysgol**

| | |
|---|---|
| Nifer o ddisgyblion yn yr ysgol | **128 + 20 rhan amser** |
| Cyfran (%) o ddisgyblion cymwys GDD | **20.35% Cyfartaledd y 3 blynedd diwethaf** |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | **24/10/24** |
| Dyddiad adolygu | **Medi 2026** |
| Datganiad wedi'i awdurdodi gan | **Mrs Christine Evans** |
| Arweinydd GDD | **Mrs Christine Evans** |
| Arweinydd o'r Llwyodraethwyr | **Mrs Rhian Williams** |

**Trosolwg Cyllid**

| **Manylion** | **Swm** |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £27,679 |
| GDD Blynyddoedd cynnar | £4,600 |
| **Cyfanswm cyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon** | **£32,279** |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

**Datganiad o Fwriad**

**Â dawn fe gawn ein geni**
**A'n hawl yw ei meithrin hi**

Yn ystod taith plentyn yn YGG Cwmnedd rydym yn anelu at sicrhau bod pob disgybl yn meddu ar yr arfau sydd eu hangen arnynt i barhau â'u taith ddysgu ar hyd eu hoes, ac annog hunan-gred er mwyn iddynt lwyddo a chyflawni eu llawn potensial.

Trwy gydweithio'n agos gyda'r gymuned lleol a chreu cysylltiadau newydd, anogir hyder ac annibyniaeth, gan fagu balchder yn eu milltir sgwâr. Trwy brofiadau, ymweliadau a dysgu dilys a pherthnasol bydd y plant yn caffael gwybodaeth am, a dealltwriaeth o ddiwylliant Glynnedd a Chymru yn ogystal â meistroli rhuglder yn y Gymraeg, a sicrhau bod dwyieithrwydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol.

Wrth wraidd popeth a wnawn bydd y pedwar diben:

- dysgwyr uchgelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

O fewn yr ysgol anogir pob disgybl i ddatblygu hunan-barch yn ogystal ag agweddau cadarnhaol a chyfrifol at fywyd yn gyffredinol. Mae ethos gwaith cryf yn yr ysgol a'r nod yw ysgogi pob disgybl i gyrraedd ei botensial a'r safonau uchaf bob amser, a chreu cyfleuoedd sy'n cefnogi lles corfforol a meddyliol.

**Canlyniadau arfaethedig**

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydyn ni'n anelu atynt erbyn diwedd ein cynllun strategaeth bresennol, a sut y byddwn ni'n mesur a ydyn nhw wedi'u cyflawni.

| Canlyniad arfaethedig | Meini Prawf |
|---|---|
| **Datblygu Mathemateg i hyrwyddo dealltwriaeth dyfnach o gymhwyso rhifedd mewn cyd-destunau dilys gan sicrhau bod athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm.** | Bydd llawer o athrawon yn deall ac yn gweithredu datblygiad rhifedd yn hyderus, gan sicrhau ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm.<br>**Dysgu ac addysgu**<br>• Bydd amrywiaeth o weithgareddau rhifedd ar gael yn y dosbarth ac yn yr ardal allanol.<br>• Corneli rhifedd pwrpasol ac heriol.<br>• Cynllunio gofalus a phwrpasol o oedolion y dosbarth er mwyn symud y dysgu ymlaen.<br>• Cysondeb yn y marcio – 1, 2, 3 a'r dot gwyrdd, dyddiad a llofnod athro/awes<br>• Ymarferion ffurfio rhifau yn gywir – peintio, sialc, tywod ac ati.<br>• Tasgau ymarferol wedi gwahaniaethu<br>• Mwy o waith datrys problemau pob dydd.<br>• Herio'r plant MATh.<br>• Cyfleoedd i'r disgyblion cymhwyso mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y cwricwlwm. |
| **I ddatblygu sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion ymhellach ar draws yr ysgol.** | Bydd gan ddisgyblion ddealltwriaeth gliriach o'r disgwyliadau ar gyfer ysgrifennu estynedig a'r sgiliau allweddol sydd eu hangen, wedi'u cefnogi gan ddull ysgol gyfan cyson.<br>Trwy ddatblygiad proffesiynol wedi'i dargedu, bydd athrawon yn fwy hyderus ac effeithiol wrth addysgu ysgrifennu estynedig, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau fel modelu, sgaffaldio a rhoi adborth ystyrlon.<br>**Meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth**<br>• Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu i ddisgyblion gyda heriau addas ac sy'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau presennol y disgyblion.<br>• Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn modelu'r broses ysgrifennu'n effeithiol, gan rannu sut mae'r ysgrifennwr yn gwneud dewisiadau o ran geirfa, strwythur brawddegau, trefniadaeth ac ati.<br>• Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ymarfer eu hysgrifennu ar lafar.<br>• Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion wneud cynnydd llwyddiannus gyda'u:<br>- Ffurfio llythrennau, llawysgrifen a chyflwyniad.<br>- Gallu ysgrifennu technegol gan gynnwys defnyddio atalnodi, gramadeg a sillafu cywir.<br>- Gallu ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu trwy amrywio strwythurau eu brawddegau yn llwyddiannus a thrwy ddefnyddio ystod o eirfa.<br>- Gallu golygu ac ailddrafftio eu gwaith i wella ei ansawdd.<br>- Gallu ysgrifennu'n annibynnol at ystod o ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau gan gynnwys ar draws y cwricwlwm.<br>- Gallu cysylltu eu hysgrifennu â'u profiadau darllen i wella ansawdd eu hysgrifennu. |

| | |
|---|---|
| | - Gallu ysgrifennu'n estynedig pan fydd disgyblion yn barod i wneud hynny.<br>**Meini prawf llwyddiant disgyblion:**<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu ffurfiant llythrennau'n dda ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu ysgrifennu technegol yn dda gan gynnwys defnyddio atalnodi, sillafu a gramadeg cywir.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu trwy amrywio eu strwythurau brawddegau yn llwyddiannus a thrwy ddefnyddio ystod o eirfa ddiddorol.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn golygu ac yn ailddrafftio eu gwaith i wella ei ansawdd.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni cynnydd cryf gyda'u sgiliau ysgrifennu ac yn cynhyrchu gwaith ar draws y cwricwlwm i safon dda.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn cysylltu eu hysgrifennu â'u profiadau darllen i wella ansawdd eu hysgrifennu.<br>- Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig pan fyddant yn barod i wneud hynny. |
| **Datblygu darpariaeth a phedegogiaeth dysgu sylfaen ymhellach yn y Cyfnod Sylfaen ac o fewn CA2. Ein nod yw gwella amgylcheddau dysgu ac arferion addysgu i gefnogi disgyblion unol ag arferion gorau.** | **Meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth:**<br>Gwelliant mewn ymddygiad, cymhelliant a hyder disgyblion.<br>Gwelliant mewn hyder staff wrth ddefnyddio dulliau dysgu sylfaenol.<br>Arsylwadau yn dangos defnydd effeithiol o chwarae i ddatblygu sgiliau.<br>Adborth cadarnhaol gan staff a rhieni.<br>Cynnydd mewn cysondeb pedagogol rhwng y cyfnodau gwahanol.<br>Dysgu sy’n seiliedig ar chwarae.<br>Amgylcheddau dysgu cyfoethog.<br>Cyd-destunau ystyrlon ar gyfer llythrennedd a rhifedd.<br>Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.<br>Arsylwi ac asesu ar gyfer dysgu yn arfer dda naturiol ym mhob dosbarth<br>Tystiolaeth o effaith ar gynnydd disgyblion. |

## Gweithgaredd yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn manylu ar sut rydym yn bwriadu treulio ein GDD y flwyddyn academaidd hon i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

1. Parhau i gael Cynorthwywyr Addysgu llawn amser ym mhob dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen ac un i'w rannu yn CA2 yn yr ysgol. i ddarparu cymorth pwrpasol neu grŵp bach i ddisgyblion sydd angen cymorth iechyd a lles trwy ystod o ddulliau – Smart Moves, Lego Therapy, Cylchedau Synhwyraidd, POPAT, Rapid Reading, Tric a Chlic. Roced Phonics.

2. Cyflogi ELSA am brynhawn yr wythnos, i gefnogi disgyblion gydag anghenion emosiynol a lles.

3. Cefnogaeth ariannol i blant PBDd fynd ar dripiau preswyl, a phob taith ysgol, i ehangu eu profiadau dysgu, a sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'r holl ddisgyblion eraill.

## Dysgu ac Addysgu

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Hyfforddiant Rhifedd | Athrawon ysgol gyfan yn dysgu ar athroniaeth dysgu ac addysgu o ran gwella sgiliau rhifedd disgyblion. Trwy ddatblygu a chyflwyno sgiliau cyfannol y rhan fwyaf o ddisgyblion. |
| Hyfforddiant CADY | Parhau i wella ac uwch sgilio medrau CADY presennol yr ysgol gyda diweddariad ar faterion ADY lleol a chenedlaethol. |

## Ysgolion Cymunedol

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Menter Iaith | Clybiau hamdden, gweithdai llythrennedd. |
| Cylch Ti a Fi | Cysylltiad â rhieni cyn oed ysgol, sefydlu rhwydwaith gyda rhieni. |
| Llyfrgell Lleol | Hybu clwb darllen i blant yn y gymuned - sefydlu partneriaid darllen rhwng y gymuned a'r ysgol. |
| Elyrch a Gweilch yn y gymuned | Hybu ffitrwydd a lles iechyd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol. |

## Strategaethau ehangach

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Ymweliadau Preswyl | Mae sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb yn hybu lles, hunanhyder a phrofiadau bywyd. Plant PBDd sy'n mynychu'r cyrsiau. Lleihau rhwystrau i rieni bregus. |
| Teithiau addysgol y dosbarth | Mae sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb yn hybu lles, hunanhyder a phrofiadau bywyd. Plant PBDd sy'n mynychu'r cyrsiau. Lleihau rhwystrau i rieni bregus. |

## Rhan B: Adolygiad o ddeilliannau GAD y flwyddyn academaidd flaenorol

- Gwnaeth gwariant y GDD y llynedd i'r ysgol barhau â gwariant cymorth tuag at ddarparu cymorth i 14 o ddisgyblion fynychu ymweliadau preswyl ac ymweliadau trwy gydol y flwyddyn.
- Derbyniodd 7 o gynorthwywyr dosbarth amrywiol hyfforddiant i gyflwyno o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.